# Cyfraddau Lwfans Tai Lleol – Gwynedd

Mae'r Lwfans Tai Lleol, neu **LTL** a delir i chi, yn dibynnu ym mha ardal LTL o fewn Gwynedd yr ydych yn byw ynddi, a'r nifer o ystafelloedd gwely y byddwch chi, a phawb arall sy'n byw gyda chi, eu hangen yn ôl y rheolau.

Fe elwir yr ardaloedd LTL yn Ardaloedd Marchnad Rhenti Eang, [**AMRE],** ac mae dwy AMRE o fewn Gwynedd o'r 1af Chwefror 2010 ymlaen. Mae'r ardaloedd yma wedi eu hadolygu gan y Gwasanaeth Swyddog Rhenti o'r 1af Chwefror 2010 ymlaen, yr oedd pump AMRE yn effeithio ar Wynedd cyn hyn.

***Mae'r AMRE yng Nghymru wedi cael eu sefydlu gan y Gwasanaeth Swyddog Rhenti, sydd yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac sy'n hollol annibynnol o Gyngor Gwynedd.***

Mae'r graddfeydd LTL yn cael eu darparu'n flynyddol gan y Gwasanaeth Swyddog Rhenti o 1 Ebrill 2012, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan bob tro y bydd y graddfeydd yn cael eu newid. ***Bydd y ffigyrau a ddangosir isod ar gyfer 1 Ebrill 2025 yn parhau mewn grym tan Ebrill 2026.***

I sefydlu pa raddfa ystafell wely sy'n berthnasol i chi, cyfrwch pob preswylydd unwaith yn unig, ac yn y grŵp cyntaf iddynt ymddangos ynddi isod. Caniateir un ystafell wely ar gyfer :

- pob cwpwl oedolyn (priod neu beidio)
- unrhyw oedolyn arall dros 16 oed
- unrhyw ddau blentyn o'r un rhyw o dan 16 oed
- unrhyw ddau blentyn o dan 10 oed yn ddifater o ba ryw ydynt
- unrhyw blentyn arall
- ystafell wely a ddefnyddir gan ofalwr (neu dîm o ofalwyr) nad yw'n byw yn eich cartref

Mae'r graddfeydd wythnosol yma yn berthnasol o **1 Ebrill 2025.**

| **Ardaloedd Marchnad Rhenti Eang [AMRE]** | **Maint yr eiddo sydd ei angen** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1 Ystafell wely - rhannu cyfleusterau** | **1 Ystafell wely - hunan cynhaliol** | **2 Ystafell wely** | **3 Ystafell wely** | **4 Ystafell wely** |
| Gogledd Orllewin Cymru | 78.80 | 90.00 | 126.58 | 143.84 | 172.60 |
| De Gwynedd | 78.80 | 80.55 | 100.00 | 125.00 | 155.34 |

**I ddarganfod ym mha AMRE yr ydych yn byw, gweler y map(iau) ar ein gwefan yn** www.gwynedd.gov.uk/ **neu gwnewch ymholiadau yn unrhyw un o'n swyddfeydd budd-daliadau.**

***Cysylltwch â ni os ydych yn meddwl fod y côd post ar unrhyw lythyr budd-dâl neu fil treth cyngor gennym ni yn anghywir, gallai hyn effeithio eich Budd-dâl Tai. Nid oes hawl apelio yn erbyn yr AMRE na'r gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo Budd-dâl Tai, oni bai eu bod yn deillio o gamgymeriadau.***